

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Awst, 2020, a gynhaliwyd drwy 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)

Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Ifor Owen, Siôn Williams

18. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod.

19. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol yn eitem 21(a) – codi adeilad amaethyddol yn Nhyddyn Blodau, Bryncroes – gan y Cyngorwyr Elin Hughes, Dylan Parry Jones a Glyn Roberts. Trafodwyd y cais yma ar ddiwedd y cyfarfod wedi i'r tri aelod ymadael a'r cyfarfod.

20. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd y cofnodion y Cyngor 7fed Gorffennaf, 2020. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Gwenan Griffith.

MATERION YN CODI

1. Eitem 16 – Cyfyngiad/barn (tudalen 3)

Datgan teimlad lleol fod angen mwy o reolaeth ar y traethau gan i'r gwasanaethau gael eu galw allan nifer o weithiau a'r adnoddau'n brin. Dylai diogelwch y cyhoedd fod yn flaenoriaeth yma.

Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen at Brif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.

2. Eitem 17 – Prynu/plannu bylbiau

Adroddodd Y Cynghorydd Gareth Williams ei fod mewn trafodaeth gyda AHNE Llyn gyda'r posibilrwydd o gael grant at y gwaith. Byddai'n adrodd ymhellach i'r Cyngor.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

21. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C20/0552/32/LL – codi adeilad amaethydodl yn Nhyddyn Blodau, Bryncroes. (Gweler eitem 19 – ‘datgan buddiant personol.’)
- (b) C20/0608/32/DT – estyniadau llawr cyntaf ar y cefn a’r ochr – Trefaes Isaf, Sarn Mellteyrn.

Penderfynwyd cefnogi’r ddau gais o nodir uchod.

22. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Adroddodd Y Cynghorydd Gareth Williams :

- a) Iddo dderbyn cwynion am y gwaith barbio a wnaed yn ystod y tymor ac ei fod wedi pasio’r wybodaeth ymlaen i’r Adran Ffyrdd.
- b) Fod pryderon yn lleol am y gor-yrru drwy bentref Botwnnog. Mae wedi bod mewn cysylltiad gyda Heddlu Gogledd Cymru ynglyn a hyn ar nifer o achlysuron, a bellach mae P.C. Steven Regan wedi ymweld a’r safle gyda’r gŵn darllen cyflymdra. Bwriedir gosod stripeddi ar draws y ffordd er mwyn mesur cyflymdra. Adroddodd Y Cynghorydd Williams ymhellach ei fod mewn cysylltiad a Mr. Dylan Jones o’r Adran Draffig yng Nghyngor Gwynedd, ac iddo addo prisio rhoi ‘speed bumps’ yn y pentref, ond wrth gwrs byddai gwrieddu’r dymuniad yn hollol ddibynol pryd ac os daw cyllid i wneud hynny.

Yn y cyswilt hwn dywedodd y Clarc iddi gael cais gan Y Cynghorydd Ifor Owen am gael tynnu sylw at y goryrru yn ardal Penygroeslon.

Penderfynwyd

- (i) Nodi’r wybodaeth uchod a gofyn am bresenoldeb yr Heddlu yn ardal Penygroeslon.
- (ii) Anfon at yr Adran Ffyrdd yn gofyn am gael barbio’r drain sy’n tyfu i’r ffordd o Gaer Efail i lawr am Benybont, Llangwnnadr.
- (iii) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Pengopa, Bryncroes.

23. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw’r Cyngor i’w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

24. **HYFFORDDIANT GAN UN LLAIS CYMRU**

Ni thrafodwyd hwn yn y cyfarfod – trafodir yng nghyfarfod mis Medi.

25. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.